



CYNGOR DINAS BANGOR

SAFON YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR

Mae'r ddogfen yma yn egluro'r safon ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau Cyngor Dinas Bangor wrth ddelio â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd â'r Cod Ymddygiad i Aelodau a phrotocol y Cyngor sy'n ymwneud â'r Cyfryngau Cymdeithasol a'r Polisi sy'n ymwneud â'r Wasg a'r Cyfyngau. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid yw'n tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i Aelodau Cyngor Dinas Bangor :-

Ymddygiad Cyhoeddus:

- Ddangos parch at ei gilydd
- Peidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Peidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Peidio â gwneud cyhuddiadau maleisus yn erbyn ei gilydd.
- Peidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Dangos parch at amrywiaeth a chydraddoldeb.

Ymddygiad mewn pwyllgorau:

- Ymddwyn gydag urddas yn y siambr.
- Dangos parch at y Cadeirydd ac ufuddhau i'w benderfyniadau.
- Peidio â defnyddio iaith anwedus na gwneud sylwadau hiliol neu sylwadau sy'n rhagfarnu unrhyw ran o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Cadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Peidio â rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Dychwelyd papurau cyfrinachol.
- Peidio â defnyddio gwybodaeth gyfrinachol at ddibenion heblaw'r hyn a fwriadwyd.

Aelodau Lleol

- Gweithio gydag aelodau eraill yn eu Wardiau a gydag Aelodau wardiau cyfagos er budd yr ardal.
- Os ydynt yn delio â mater yn ymwneud â Ward arall:
 - Esbonio i unrhyw un sydd angen help nad ef/hi yw'r Aelod Lleol.
 - Hysbysu'r Aelod Lleol, oni bai y byddai hynny'n arwain at dorri cyfrinachedd.

Gwyn Hughes
Clerc y Dref

Hydref 2014